COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Medi 9fed, 2015 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Robert M. Jones (Cadeirydd), John Gwilym Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, Wyn Griffiths, John E. Griffiths, Gwilym Hughes, Alun Jones, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, Cyng. R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

R. Phillip Roberts, William B. Williams

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd:

- Cyng. Robert M. Jones (Cadeirydd) fuddiant personol yn Eitem 11. Ceisiadau Ariannol, sef cais Pwyllgor y Fynwent, Capel y Bwlch, am gyfraniad ariannol, gan mai ef yw'r Trysorydd
- Cynghorwyr John Gwilym Jones (Is-gadeirydd) a Catherine Ll. Morris (Cyn-gadeirydd) fuddiant personol yng nghais cynllunio C15/0708/39/LL – Tyddyn Talgoch Uchaf, Bwlchtocyn, gan eu bod yn berchnogion meysydd carafannau eu hunain.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar Orffennaf 27ain, 2015 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y chwe chais cyntaf gan yr Is-bwyllgor Cynllunio, sef aelod o bob ward, yn ystod y gwyliau. Datganodd dau ohonynt ddiddordeb yn yr ail gais, gan eu bod yn berchnogion meysydd carafannau eu hunain – gweler Cofnod 1. uchod.

C15/0341/39/LL	Cais Diwygiedig **–** Gwaith peirianyddol i greu llithfaen **–** Ynys Sant Tudwal (Gorllewin), Aber-soch **– Cefnogir**
C15/0708/39/LL	Lleoli tair carafán sefydlog ychwanegol, ail-leoli un, lledu ffordd fynediad i greu ymyl gwyrdd i gerddwyr, adeiladu trac *grasscrete* ar gyfer yr ardal storio cychod, adeiladu wyneb caled mewn rhan o'r ardal storio cychod a gwaith tirlunio – Tyddyn Talgoch Uchaf, Bwlchtocyn **– Gwrthwynebir oherwydd bod digon o garafannau ar y safle eisoes [Datgan Diddordeb – JGJ, CLLM]**
C15/0761/39/LL	Estyniad unllawr ochr a chefn ac ymestyn y modurdy i'w ddefnyddio fel ystafell ychwanegol i'r tŷ – Rose Lea, Aber-

	soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad ar safle cyfyng**
C15/0770/39/LL	Dymchwel tai presennol a chodi tŷ newydd ac anecs yn ei le a gwaith cysylltiedig – Ger y Môr a Gwynt y Môr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad ar y safle. Mynegwyd pryder am y posibilrwydd o newid y ddau enw i un Saesneg**
C15/0796/39/LL	Ymestyn cwrtil a gosod decin pren – Sea Breeze, Stryd Fawr, Aber-soch **– Cefnogir**
C15/0812/39/LL	Cais Diwygiedig **–** Dymchwel porth car a chodi estyniad deulawr ochr, amgáu balconi presennol â strwythur gromen a gosod pwmp ffynhonnell aer ar ochr y tŷ – Nant y Mynydd, Aber-soch **– Cefnogir**
C15/0883/39/TC	**Gwybodaeth Bersonol Cynghorwyr –** Defnyddio siale fel tŷ/llety gwyliau – Cae'r Ffynnon, Lôn Engan, Aber-soch
C15/0901/39/LL	Adnewyddu caniatâd cynllunio C11/0277/39/LL i adeiladu tŷ annedd deulawr – Tir ger Tŷ Adda, Aber-soch **– Cefnogir**
C15/0904/39/LL	Dymchwel estyniadau presennol ar y tŷ a chodi estyniad unllawr ochr, modurdy a phorth car, ynghyd â chlirio lloriau caled y carafannau ac addasu a chodi estyniad deulawr gromen at adeilad allanol presennol i greu un llety gwyliau – Deucoch Hotel, Aber-soch **– Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus – Tyddyn Callod, Aber-soch**

- Derbyniwyd anfoneb dargadwad y cynllun (a ddaeth i ben ar Fedi 6ed) oddi wrth y contractwr – gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod. Atgyweiriwyd y manion bethau oedd yn weddill, sef ailosod drychau toiledau'r dynion a'r anabl a sedd toiled y dynion. Fandaleiddiwyd drws y dynion dros yr Ŵyl Banc ac, o ganlyniad, ni chasglwyd cymaint o arian mynediad â'r disgwyl – fe'i dynnwyd am allan yn hytrach na'i wthio mewn. Fe'i atgyweiriwyd gan Cyng. W.B. Williams – diolchir iddo am hynny.
- Derbyniwyd £1091.00 o arian mynediad ers cyfarfod mis Gorffennaf; £2306.70 ers mis Ebrill.
- Disgwylir peirianydd Nwy Prydain i osod mesurydd newydd ar Fedi 18fed.
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru yn gofyn am adroddiad ar y prosiect yn dilyn derbyn y nawdd a holiadur – fe'i dychwelwyd.
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth British Gas yn cynnig 5% o leihad ar brisiau trydan y gytundeb bresennol a ddaw i ben ar Chwefror 17eg, 2016 pe adnewyddid y Cynllun Ynni Pris Gosod cyn diwedd y mis – cynigir 12.274c yr uned a 19.637c y pris sefydlog; penderfynwyd ceisio cymharu cyn penderfynu.

b) **Biniau Baw Cŵn**

- Gosodwyd y bin ym maes parcio Mynydd Cilan a derbyniwyd anfoneb oddi wrth y contractwr (gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Derbyniwyd e-bost yn llongyfarch y Cyngor, yn dilyn gosod y bin

olaf, oddi wrth Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaethau Stryd, *"Diolch yn fawr – mae Llanengan yn bell ar y blaen mewn cymhariaeth â chynghorau cymuned eraill ac rydym yn cyfeirio at eich menter biniau fel enghraifft o ymarfer da"*.

- Hysbyswyd perchennog maes carafannau Pant Gwyn Cottage na fwriedir gosod bin baw cŵn ychwanegol rhwng Fferm Pant Gwyn a Rhianfa ac awgrymwyd y gallai brynu a gosod un ei hun ar ei faes carafannau. Atebodd drwy ddweud mai problem ar y ffordd yw hi ac nid ar ei faes carafannau, gan nad oes gan ei garafanwyr gŵn.
- Gosodwyd y bin newydd rhwng gwaelod y llwybr mynediad a'r offer sglefrfyrddio yng Nghae Chwarae Aber-soch.

c) **Swydd a Chytundeb Gwaith y Clerc**
Anfonwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth y Rheolydd Pensiynau at y cyfrifydd, ond ni dderbyniwyd ymateb.

ch) **Foel Gron a Thir Comin Mynytho – Tir Pen y Mynydd**

- Darpara Merfyn Pugh y gytundeb newydd i denant Pen y Mynydd.
- Derbyniwyd anfoneb y contractwr am dorri'r Foel a Llain y Pentref (gweler 11. Taliadau a Derbyniadau isod).

d) **Gwefan y Cyngor**
Bydd y wefan yn fyw cyn gynted ag yr anfonir yr wybodaeth angenrheidiol – deil cryn dipyn o waith cywain popeth.

dd) **Glanhau Afon Soch**
Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Roberts Ffestiniog – deil £2469.60 (yn cynnwys TAW) yn ddyledus i'r cwmni; penderfynwyd anfon llythyr at y cwmni i ofyn i'r gweithiwr ddod draw i ddangos ble'n union a lanhaodd ar yr afon i gau pen y mwdwl unwaith ac am byth, gan ei bod yn ddeunaw mis ers i'r gwaith gael ei wneud.

e) **Meddygfa Aber-soch**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach ond, awgrymwyd tybed a ystyrid adeilad Banc y NatWest; penderfynwyd ysgrifennu i'w gynnig.

f) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/'Harbour Mews Development'**

- Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth y cwmni datblygu.
- Derbyniwyd e-bost arall oddi wrth Frank Pilling yn mynnu cyfarfod i ddechrau ar gynllun y llwybr at lan yr afon er yr eglurwyd wrtho'n flaenorol bod ceisio nawdd ac ati ar gyfer cynllun o'r fath yn cymryd amser.
- Ystyrir ceisiadau gan Gynghorau Cymuned a Thref ar gyfer Cyllid Prosiectau Graddfa Fach Llywodraeth Cymru – gobeithir cwblhau'r ffurflen gais cyn dydd Gwener, sef y dyddiad cau – cyfrennir hyd at £15,000.

ff) **Gohebiaeth aii) Un Llais Cymru (ULlC)**
Oherwydd fod gorfod amser wedi mynd heibio i gwyno am y materion a godwyd dros y misoedd diwethaf, penderfynwyd anfon llythyr yn mynegi pryder at Bwyllgor Arfon Dwyfor sy'n cyfarfod ar Fedi 16eg.

g) **Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach parthed cofrestru tir Maes Awel â'r Gofrestrfa Tir.

ng) **Canllawiau ar Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – Cyfieithu**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth swyddfa Comisiynydd yr Iaith am anfodlonrwydd yr ateb a dderbyniwyd oddi wrth Uned Gwynion Ganolog, Llywodraeth Cymru parthed yr uchod, ond derbyniwyd holiadur yn gofyn am farn ar yr ymateb – fe'i dychwelwyd.

h) **Gohebiaeth d) John D. Roberts – Archwilio Cyfrifon 2014 – 2015/Hacker Young**
Derbyniwyd Rhybudd Diwedd yr Archwiliad – y cyfrifon yn lân – ac arddangoswyd yr hysbysiad, yn unol â'r drefn. Derbyniwyd anfoneb am y gwaith – gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

i) **Gwasanaeth Cynllunio – Bryn Cethin Bach, Aber-soch**
Hysbysodd Elfyn Williams, Uwch Swyddog Gorfodaeth, y derbyniwyd cais cynllunio ôl-weithredol am yr uchod ac yr anfonir am sylwadau yn fuan.

l) **Cefnogaeth Gorfforol – Her Gwynedd**
Cynhelir cyfarfod yn Neuadd Aber-soch rhwng un a phedwar o'r gloch, bnawn Mercher, Hydref 14eg i drafod y toriadau â swyddogion y Cyngor. Mynegwyd na allai pobl sy'n gweithio ei fynychu ac, o ganlyniad, dywedodd Cyng. Wyn Williams y gofynnai pe gellid eu hymestyn tan bump o'r gloch.

ll) **Llythyr Ymddiswyddiad**
Ni dderbyniodd y Swyddog Canlyniadau gais am etholiad yn dilyn arddangos y Rhybudd o Sedd Wag Achlysurol ac, o ganlyniad, gall y Cyngor gyfethol; penderfynwyd holi ac enwebu erbyn cyfarfod mis Hydref.

m) **Cyng. Wyn Williams – Banc NatWest**
Deil pryder am y cau er mai ofer yw'r cwyno ond, penderfynwyd anfon llythyr arall i fynegi anfodlonrwydd ar ôl gweld y ciwiau yn ystod y gwyliau – busnesau angen newid ac ati.

n) **Cyngor Tref Cricieth – Gwrthwynebiad i Gais Cynllunio**
Anfonwyd sylwadau'r Cyngor yn gefnogaeth i'r uchod.

o) **Came & Company – Yswiriant 2015 – 2016**
Derbyniwyd y ddogfennaeth briodol yn dilyn adnewyddu'r yswiriant.

5. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Parcio ym Mhorth Neigwl – *Llinellau Gwyn Igam Ogam***

Cyfarfu'r Cadeirydd, Is-gadeirydd a CLlM ag Iwan ap Trefor, Uwch Beiriannydd Traffig, yr wythnos diwethaf. Adroddwyd y bwriedir paentio'r llinellau melyn ar dri safle rhwng y maes parcio a Thowyn i geisio gwella llif traffig o fewn y bythefnos nesaf. Awgrymodd na ellir gorfodi'r llinellau gwyn fel y rhai melyn. Asesir y rhai melyn ond, mynegwyd na fydd wardeiniaid parcio yn gweithio dros y penwythnosau pan mae'r trafferthion mwyaf.

b) **Masnachu ym Mhorth Neigwl**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, i'r ymholiad am y fan gwerthu bwyd ychwanegol a fu yno yn ystod yr wythnosau diwethaf.

c) **Gwasanaeth Trafnidaiaeth a Gofal Stryd – Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**
Daeth yr uchod i rym ym mis Medi 2014 ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr, ynghyd â llunio mapiau a noda'r llwybrau presennol ac arfaethedig at y dyfodol. Pwllheli yw'r ardal dan sylw sydd agosaf i'r gymuned hon.

6. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Arwydd Mynyddoedd Eryri ar y Llwybr Arfordir ger Cim***
Ni wnaed dim â'r uchod.

b) ***Llwybr 69 Bryn Ffynnon, Stad Sant Tudwal, Mynytho***
Caniatawyd y cais cynllunio, ond nis ailagorwyd y llwybr hyd yma.

c) ***Taith Gerdded Ddigidol***
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Seimon Jones.

ch) ***Shanty, Pen Bennar***
Ni dderbyniodd y perchennog tir unrhyw ohebiaeth oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

d) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach parthed ailagor hwn.

dd) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach parthed yr uchod.

e) ***Torri'r Llwybrau***
Derbyniwyd anfoneb y contractwr am dorri'r llwybrau – gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod – ond, derbyniwyd cwynion achlysurol yn ystod y gwyliau am gyflwr rhai ohonynt. Trafodwyd y posibilrwydd efallai y byddai'n syniad rhannu'r gwaith trwy dendr ar gyfer y flwyddyn nesaf, h.y. llwybrau Mynytho a Llangian ac Aber-soch a'r gweddill. Anfona Dewi Wyn Owen restr o gontractwyr lleol er gwybodaeth.

f) ***Gwasanaeth Cyfreithiol – Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Llwybr Troed Cyhoeddus – Rhif 40 yng Nghymuned Llanengan) (Gwaharddiad Defnydd Dros Dro) 2015 – Estyniad***

Copïau o'r uchod, er gwybodaeth. Caniataodd Llywodraeth Cymru estyniad iddo ac, o ganlyniad, parhâ'r Gorchymyn mewn grym am gyfnod o chwe mis ychwanegol.

ff) ***Gwasanaeth Amgylcheddol – Cynllun Pandy, Nanhoron***
Hysbysiad oddi wrth Rhys Gwyn Roberts, Swyddog Prosiect Llwybr Arfordir, o fwriad Cyngor Gwynedd i greu rhimyn o lwybr cyhoeddus (236 meter yn unig) dros dir Stád Nanhoron a adnabyddir fel Pandy Saethon a fydd yn cysylltu'r ffordd â Llwybr Cyhoeddus Rhif 85 Llanengan – dim gwrthwynebiad.

7. ADOLYGU A MABWYSIADU RHEOLAU SEFYDLOG/ARIANNOL A PHOLISÏAU

Trafodwyd y polisïau isod ac anfonir copi ohonynt â'r cofnodion fel y gellir eu mabwysiadu yng nghyfarfod mis Hydref:

- Iaith (adolygwyd)
- Gwirfoddoli
- Iechyd a Diogelwch.

8. GOHEBIAETH

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Cynhadledd Un Llais Cymru – Hydref 3ydd***
Derbyniwyd rhestr o'r cynigion a gyflwynir yn yr uchod.

ii) ***Nodiadau Pwnc Cyfreithiol gan NALC – 87 Procurement, 15 L05-15 – Public Contracts Regulations 2015 – Impact on Standing Orders Adopted by Councils***
Nodiadau ar gael yn y Saesneg yn unig – angen gwneud rhai newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol.

iii) ***Ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)***
Daeth yr uchod i ben ddoe.

iv) ***Arolwg ar gyfer Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol***
Ymestynwyd yr Arolwg electronaidd o lwfansau a threuliau aelodau tan Fedi 18fed gan mai ond 79 cyngor allan o 735 a ymatebodd iddo.

v) ***Ymgynghoriad ar Amddiffyn Asedau Cymunedol***
Daw i ben fory (Medi 10fed).

vi) ***Newyddlen Swyddfa Archwilio Cymru***
Copi, er gwybodaeth.

vii) ***Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor***
Cynhelir yr uchod yn Siambr Cyngor Tref Pwllheli nos Fercher, Medi 16eg; ymddiheurir ar ran y Cyngor.

viii) ***Newidiadau Arfaethedig i Bennod 10 Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Techengol 4: Datblygu Canolfannau Manwerthu***
Angen sylwadau ar yr ymgynghoriad uchod erbyn Tachwedd 26ain.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Y Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol***
Copi o'r adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad er gwybodaeth.

ii) ***Cyfarwyddiadau Drafft Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn)***
Llythyr oddi wrth Leighton Andrews, AC, Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn hysbysu'r ymgynghoriad uchod a ddaw i ben ar Dachwedd 9fed.

iii) ***Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Drafftio Canllawiau ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***
Llythyr yn hysbysu y cyhoeddodd y Llywodraeth ei ganllawiau ar gyfer ymgynghori ar yr uchod – angen sylwadau erbyn Tachwedd 16eg.

iv) ***Polisi Gwirfoddoli – Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau***
Copi, er gwybodaeth, o'r uchod – angen ystyried mabwysiadu polisi o'r fath.

c) **Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn – Newyddlen Gorffennaf 2015**
Copi, er gwybodaeth, o'r uchod.

ch) **Llythyr oddi wrth Mr. W.E. Jones, Leighton, Crewe – Cais Cynllunio Ysgubor Ddegwm, Llangian**
Cais, yn dilyn galwadau ffôn hefyd, am gopi o gofnodion cyfarfod Ionawr 14eg, 2014 y Cyngor a drafododd yr uchod. Anfonwyd hwy ato yn dilyn derbyn siec am £7.00 oddi wrth – gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

d) **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Newidiadau Dros Dro i Wasanaethau Merched a Mamolaeth 2015**
Gohebiaeth parthed yr ymgynghoriad uchod – penderfynwyd angen sylwadau erbyn Hydref 5ed.

dd) **Gwasanaeth Cyfreithiol – Y Côd Ymddygiad i Aelodau**
Trefnwyd sesiynau hyfforddiant i gynghorau cymuned a thref ar yr uchod. Cynhelir un yng Nghanolfan Frondeg, Pwllheli, nos Fercher, Hydref 7fed am 6.30 o'r gloch – OHR am ei fynychu.

e) **Gwasanaeth Cyfreithiol – Rhybudd Gorchymyn Cyngor Gwynedd Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Parcio ar y Stryd (Ardal Dwyfor) 2015**
Copi o'r uchod – daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar Fedi 3ydd. Y newidiadau arfaethedig yn y gymuned hon yw'r gilfan gyferbyn â Gwesty Sant Tudwal, Aber-soch – newid amser cyfyngu parcio – a phaentio llinellau melyn ar dri safle rehwng maes parcio Porth Neigwl a Fferm Towyn.

f) **Wicksteed Playgrounds – Arolwg Diogelwch Blynyddol**
Gohebiaeth yn hysbysu ei bod yn amser cynnal yr uchod – £45.00 am archwiliad heb gwmni. Adroddwyd bod G.L. Jones yn cynnal un hefyd – holir am bris.

ff) **Cyng. Wyn Williams – Is-ddeddf Masnachu ar y Stryd**

- Nododd Iwan Evans, Cyfreithiwr y Cyngor, mewn ymateb i'r uchod y cofia y bodolai trefniadau ynglŷn â masnachu ar y stryd pan oedd yn Swyddog yn Nwyfor ond, ni chofiai os mai Is-ddeddf neu benderfyniad a rhybudd ar drefn statudol ydoedd ac ymchwiliai ei dîm i'r mater. Cofiai'r Cyn-gynghorydd D.W. Williams y cafwyd trafferth â masnachwr yn ystod ei gyfnod ef ar Gyngor Dosbarth Dwyfor.
- Adroddodd Mr. Williams fel y bu mewn trafodaethau (ynghyd â'r Heddlu a swyddog Safonau Masnach â gwerthwr gemwaith ar y stryd yn ystod mis Awst – roedd ganddo Drwydded Pedlar a ganiatâi iddo werthu wrth symud, e.e. o dŷ i dŷ ac nid fel y gwnâi ef mewn un man ar y stryd. Er y dywedodd y deuai'n ôl cyn diwedd y mis, ni welwyd ef wedyn.

9. CEISIADAU ARIANNOL

Ni chyfarfu'r Is-bwyllgor Ariannol gan mai ond hanner dwsin o geisiadau a dderbyniwyd – tynnwyd un yn ôl ac ni ystyrir un Shelter Cymru gan nad yw'n cynorthwyo pobl yn y gymuned hon. Penderfynwyd cyfrannau at gynnal mynwentydd Eglwysi Sant Engan a Sant Cian, Capel y Bwlch, Gŵyl Cerdd Dant Llŷn ac Eifionydd 2016 a Gŵyl Jas Aber-soch (gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod).

10. DYFARNIADAU CYNLLUNIO

C14/0703/39/LL	Cais ôl-weithredol ar gyfer codi porth i flaen yr annedd, ynghyd â chreu llain galed i ochr yr annedd – Bryn Ffynnon, Stad Sant Tudwal, Mynytho – **Caniatawyd yn ddiamodol**
C15/0468/39/LL	Dyluniad diwygiedig i dŷ a ganiatawyd gan Ganiatâd Llawn Rhif C13/1098/39/LL yn cynnwys dyluniad diwygiedig blaen a wal ochr – The Anchorage, Pen Bennar, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0575/39/LL	Addasiadau ac estyniadau i greu tŷ deulawr â gofod to a balconi blaen – Tarenig, Aber-soch – **Gwrthod**
C15/0616/39/LL	Dymchwel tŷ gwesty presennol a chodi un annedd yn ei le – Carisbrooke, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C15/0664/39/LL	Adeiladu estyniad unllawr at ochr dde yr eiddo – Ger y Traeth, Bwlchtocyn – **Gwrthod**
C15/0666/39/LL	Tocio neu dorri coeden – Haulfryn Cottage, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

11. CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Medi y Clerc (Rh/S 001928), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Siôn Hughes – £4600.00 (Rh/S 001926 – Torri'r Foel a Llain y Pentref)
b) UHY Hacker Young – £498.00 (Rh/S 001927 – Archwiliad Blynyddol 2014 – 2015)
c) Griffith Gardening – £80.00 (Rh/S 001929 – Cyflenwi a Gosod Polyn Bin Baw Cŵn ar Fynydd Cilan)
ch) Griffith Gardening – £5994.00 (Rh/S 001930 – Torri Llwybrau'r Gymuned)
d) Eglwysi Sant Engan a Sant Cian – £1800.00 (Rh/S 001931 – Cyfraniad at Dorri'r Mynwentydd)
dd) Gŵyl Cerdd Dant Llŷn ac Eifionydd – £200.00 (Rh/S 001932 – Cyfraniad)
e) Capel y Bwlch – £900.00 (Rh/S 001937 – Cyfraniad at Dorri'r Fynwent)
f) Gŵyl Jas Aber-soch – £500.00 (Rh/S 001934 – Cyfraniad)
ff) Elfyn Hughes – £1500.00 (Rh/S 001935 – Torri Gwellt Estyniad Mynwent y Bwlch)
g) E.W. Griffiths Cyf. – £1854.42 (Rh/S 001936 – Dargadwad y Toiledau 06/09/15)
ng) British Gas – £83.18 (D/U – Cyflenwad Trydan y Toiledau)

Derbyniadau

a) Arian Mynediad y Toiledau – £1091.00 (£66.70, £86.30, £223.60, £143.20, £145.30, £72.75, £71.75, £117.00, £96.20, £67.30)
b) Mr. W.E. Jones – £7.00 (Llun-gopi o gofnodion cyfarfod Ionawr 14eg, 2014)

12. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Hydref 14eg, 2015 am saith o'r gloch